

Crynodeb o Wiriad Ansawdd
Enw'r Lleoliad: Ysbyty Gorseinon
Ward y Gorllewin
Dyddiad y gweithgaredd:
10 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 08 Hydref 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward y Gorllewin yn Ysbyty Gorseinon fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'n ward ail-alluogi â 36 o welyau sy'n helpu cleifion wrth iddynt wella ar ôl aros mewn ysbytai eraill sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe cyn iddynt gael eu rhyddhau i fynd adref.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull gweithredu haenog newydd mewn perthynas â sicrwydd. Maent yn cynnig un ymhlith sawl ffordd i AGIC edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Mae'r gwiriadau ansawdd hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull o gynnal arolygiadau [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ar 10 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a wynebir ganddo yn sgil COVID-19, a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio unigolion. Gwnaethom edrych ar bolisiau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol.

O ganlyniad i'r galw ychwanegol am welyau ar ddechrau pandemig COVID-19, roedd mwy o gleifion yn cael eu rhyddhau i fynd adref yn syth o ysbytai yn y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn golygu i broffil y cleifion a oedd yn cael eu symud i Ysbyty Gorseinon newid; roedd y cleifion

â lefelau uwch o anghenion ac roedd angen mwy o gymorth clinigol a goruchwyliaeth arnynt. Roedd hyn yn cynnwys cleifion roedd angen gofal lliniarol arnynt.

Roedd yr ysbyty a'r staff yn wynebu nifer o heriau o ganlyniad i hyn, a drafodir yn yr adrannau eraill o'r cofnod hwn o ganfyddiadau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Mae'r ysbyty wedi bod yn dilyn y canllawiau a luniwyd gan y bwrdd iechyd ar Atal a Rheoli Haint COVID-19 a Defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol i helpu i amddiffyn pobl rhag trosglwyddo'r coronafeirws ar y ward.

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar diogelu personol ar gael o hwb canolog ar y safle, a oedd yn sicrhau bod modd ailgyflenwi stociau'n gyflym pan fyddai angen cyfarpar ar y staff ar y ward. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar y ffordd gywir o wisgo a diosg cyfarpar diogelu personol yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg o haint. Mae ardal newid dillad ar wahân ar gael yn yr ysbyty i roi cyfle i'r staff wneud hyn yn ddiogel.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod hysbysfwrdd ar y ward sy'n cynnwys gwybodaeth am y canllawiau COVID-19 diweddaraf, gwersi a ddysgwyd o unrhyw ddigwyddiadau diweddar a gwybodaeth am unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau y mae angen i'r staff gael gwybod amdanynt. Gall pob aelod o'r staff ddefnyddio'r fewnwyd, sy'n cynnwys yr holl ganllawiau diweddaraf gan y bwrdd iechyd, a gall y staff gysylltu â'r tîm atal a rheoli haint canolog os bydd angen mwy o help arnynt.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr. Gwnaethom edrych ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o niwed pwyso neu niwed i feinweoedd. Gwnaethom hefyd holi'r lleoliad ynghylch y newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Amlinellodd rheolwr y ward y newidiadau a wnaed i amgylchedd y ward o ganlyniad i bandemig COVID-19. Rhoddwyd mwy o le o amgylch gwelyau'r cleifion er mwyn bodloni canllawiau cadw pellter cymdeithasol. Agorwyd ward nad oedd yn cael ei defnyddio yn flaenorol wrth ymyl yr ardaloedd clinigol i greu mwy o le ar gyfer hyn. Cynhaliwyd asesiadau risg ar y ward newydd i sicrhau ei bod yn ddiogel ac yn addas i'w defnyddio.

Dynodwyd un ardal o'r ward yn ardal 'goch' lle mae'r cleifion yn cael eu monitro'n agos am arwyddion o unrhyw haint. Caiff y cleifion nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion o haint eu symud i'r ardal 'werdd' ar y ward. Er mwyn helpu'r cleifion i ddod i arfer â'r trefniadau newydd hyn, gosodwyd byrddau atgoffa a drysau melyn sy'n addas at bobl â dementia er mwyn helpu'r cleifion i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y ward.

Mae'r staff wedi ychwanegu eu henwau ar eu cyfarpar diogelu personol, er enghraifft ar ben eu feisorau, er mwyn eu helpu i gyfathrebu â'r cleifion ac i'w gwneud yn haws i'r cleifion adnabod yr aelodau o'r staff sy'n rhoi gofal iddynt.

Mae'r ysbyty wedi parhau i sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu. Cadarnhaodd rheolwr y ward fod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal drwy eu cynlluniau gofal a'r rowndiau ward dyddiol lle y cânt gyfle i siarad â'r staff clinigol, megis therapyddion galwedigaethol, am eu hanghenion. Penodwyd cynorthwyydd gofal iechyd i ganolbwyntio ar gynnal gweithgareddau i helpu i ddiddori'r cleifion a'u helpu i wella. Er enghraifft, cynhaliwyd sesiwn te prynhawn lle roedd y cleifion yn gallu cael te a chacen, a dywedodd y staff fod y cleifion wedi cymryd diddordeb yn y gweithgaredd hwn. Roedd hefyd yn helpu'r staff i dreulio mwy o amser a dod i ddeall eu cleifion mewn ffordd wahanol i'r arfer pan oeddent yn rhoi gofal iddynt.

Yn ystod y cyfyngiadau symud a'r cyfyngiadau ar y trefniadau ymweld, roedd y cleifion yn gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau drwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio iPads a roddwyd i'r ysbyty. Yn achos cleifion a oedd yn cael gofal lliniarol, gwnaed ymdrechion i'w symud i ystafelloedd gyda drysau patio a oedd yn eu galluogi i weld eu teuluoedd wrth ddilyn canllawiau llym ar reoli heintiau. Nodwyd gennym fod hyn yn arfer da yn ystod cyfnod heriol pan oedd angen i'r staff gydbwyso hawliau'r cleifion a diogelwch y staff, y cleifion a'r ymwelwyr.

Wrth adolygu'r dystiolaeth, gwnaethom edrych ar adroddiad diweddar a oedd yn adolygu cwympiadau cleifion ar y ward yn ystod mis Mehefin 2020. Gwelsom nad oedd y ward yn cydymffurfio'n dda â'r arfer o fesur pwysau gwaed gyda'r claf yn sefyll ac yn gorwedd; Dim ond yn achos un o'r chwe chwympiad claf a gofnodwyd roedd pwysau gwaed wedi cael ei fesur. Gwnaethom drafod y mater hwn â rheolwr y ward a esboniodd y camau unioni a gymerwyd mewn ymateb i'r canfyddiadau sydd wedi arwain at gydymffurfiaeth well yn y misoedd dilynol; mae aelodau o'r staff wedi cael eu dyrannu i ardaloedd penodol, mae ffolderi wedi cael eu creu ar gyfer gwahanol rannau o'r ward i gofnodi mesuriadau ac mae'r staff wedi bod yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod pwysau gwaed y cleifion yn cael eu mesur gyda'r claf yn sefyll ac yn gorwedd a'u cofnodi yn ôl y disgwyl.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r

risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Gwnaethom edrych ar y polisiau rheoli heintiau, y cyfraddau heintiau a'r asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Pan oedd pandemig COVID-19 ar ei waethaf, rhoddwyd pob claf a gafodd ei symud i'r ward yn ardal 'goch' y ward am 14 diwrnod i gael ei fonitro am unrhyw risg o haint. Dyrannwyd aelodau o'r staff i weithio yn yr ardaloedd hynny un unig yn ystod eu sifft, gan roi gofal nyrsio i gleifion gan ddefnyddio cyfarpar diogelu personol priodol yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Cafodd y cleifion nad oeddent yn dangos unrhyw arwyddion o haint eu symud i ardal 'werdd' y ward wedyn.

Cymerodd goruchwylwyr cadw tŷ ran yn y gwaith o ddatblygu'r protocol newydd hwn. Mae staff cadw tŷ wedi helpu drwy sicrhau bod y ward yn lân, ac wedi cefnogi'r ffordd newydd hon o weithio. Cadarnhaodd rheolwr y ward fod y trefniadau hyn wedi gweithio'n dda ac wedi helpu i gadw nifer y cleifion a heintiwyd yn isel, a helpu i atal heintiau rhag cael eu lledaenu yn y ward.

Mae'r trefniadau yn parhau ar waith yn yr ysbyty, ond lleihawyd y cyfnod monitro ar gyfer cleifion yn yr ardal 'goch' i 7 diwrnod o ganlyniad i'r ffaith bod cyfradd yr heintiau wedi lleihau. Cynhaliwyd asesiad risg o'r penderfyniad i leihau'r cyfnod hwn a chytunwyd â'r bwrdd iechyd arno. Bydd yn helpu gyda llif y cleifion drwy'r ysbyty.

Cynhelir archwiliadau safonol ar reoli heintiau, yr amgylchedd ac offer miniog ar y ward bob mis. Gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau a gynhaliwyd ym mis Awst 2020 a mis Medi 2020, nad oeddent yn nodi unrhyw bryderon na risgiau difrifol. Gwelsom hefyd dystiolaeth o archwiliad hylendid dwylo a gynhaliwyd ym mis Medi 2020. Esboniodd rheolwr y ward fod y ward wedi cael gafael ar flwch golau uwchfioled yn ddiweddar i helpu i dynnu sylw at unrhyw broblemau o ran technegau golchi a sgwrio dwylo.

Mae nyrs rheoli heintiau arbenigol wedi bod yn ymweld â'r ward bob wythnos yn ystod pandemig COVID-19 i sicrhau bod y ward yn cydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau. Mae'r nyrs hefyd yn cynnal ei gwiriadau ei hun o'r ward mewn perthynas â rheoli heintiau, a chadarnhaodd rheolwr y ward yr aed i'r afael â phob mater a godwyd gan y nyrs.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau

(megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod HealthRoster yn cael ei ddefnyddio fel adnodd cyffredinol i reoli rotas, dewisiadau gweithio ac absenoldebau'r staff. Gellir defnyddio'r adnodd hwn i wneud gwaith dadansoddi er mwyn gwirio nifer y staff a'r cymysgedd sgiliau ar y rotas i sicrhau eu bod yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion. Gwnaethom edrych ar nifer y staff a oedd ar ddyletswydd ar ddiwrnod y gwiriad ansawdd a nodwyd ei fod yn briodol o ystyried nifer y cleifion.

Roedd mwy o staff yn gweithio ar bob sifft yn ystod pandemig COVID-19 am fod gan y cleifion yn yr ysbyty lefel uwch o anghenion. Rhoddwyd nyrs staff ychwanegol ar y rota ar gyfer sifftiau nos i ddarparu cymorth nyrsio ychwanegol, ac ychwanegwyd mwy o uwch-aelodau o staff i'r sifftiau nos a sifftiau penwythnos i sicrhau bod cymorth ac arweiniad ar gael i'r staff drwy gydol yr wythnos.

Roedd yn glir o'n trafodaethau â rheolwr y ward bod y staff wedi bod yn hyblyg ac wedi bod yn fodlon addasu ac ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol i wella eu sgiliau mewn meysydd megis gosod canwlâu, gwythïen-bigiadau, gofal lliniarol a rheoli clwyfau cymhleth. Mae hyn wedi helpu'r ysbyty i ymdopi â'r newid i dderbyn cleifion ag anghenion uwch wrth barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae'r Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu (PADR) a gynhelir rhwng rheolwyr a'u staff wedi cael eu defnyddio i dynnu sylw at unrhyw ofynion dysgu ac i ddeall dewisiadau personol y staff o ran lle maent yn dymuno gweithio (e.e. yn yr ardaloedd 'coch' neu 'wyrdd'). Gwelsom dystiolaeth yn cadarnhau bod 75% o'r staff wedi cael eu PADR a bod 91% o'r staff wedi cydymffurfio drwy gwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Esboniodd rheolwr y ward yr anawsterau a wynebwyd yn ystod pandemig COVID-19 o ran sicrhau bod y staff yn cydymffurfio drwy gwblhau hyfforddiant gorfodol, gan fod llai o hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gael, a bod rhai aelodau o'r staff yn absennol o'r gwaith yn hunanynysu neu'n gwarchod. Fodd bynnag, cawsom sicrwydd bod hyfforddiant o'r fath wedi cael ei roi ar waith unwaith eto a bod cynlluniau ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyfforddiant fel mater o flaenoriaeth ar gyfer yr ysbyty.

Mae trefniadau wedi cael eu gwneud i helpu i gefnogi llesiant y staff yn ystod pandemig COVID-19 a'r newid i roi gofal nyrsio i gleifion ag anghenion uwch. Trefnwyd sesiwn hyfforddiant i'r staff i'w helpu i siarad am y sefyllfaoedd anodd y maent wedi eu hwynebu a delio â nhw, megis ymdopi â phrofedigaeth a rhoi cymorth emosiynol i gleifion sy'n cael gofal lliniarol nad oedd eu teuluoedd yn gallu bod gyda nhw. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod y staff wedi gweld yr hyfforddiant yn ddefnyddiol, a phenderfynodd yr uwch-reolwyr y byddai'r hyfforddiant yn orfodol yn y dyfodol er mwyn helpu i gefnogi pob aelod o'r staff yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym i staff gael goruchwyliaeth glinigol ddiwethaf o dan y rheolwyr blaenorol yn 2018. Cadarnhaodd rheolwr y ward fod cynlluniau ar waith i hyfforddi uwch-aelodau o'r staff fel goruchwylwyr clinigol ac ailgychwyn ar y rhaglen; byddai AGIC yn disgwyl gweld hyn yn cael ei roi ar waith fel mater o flaenoriaeth er mwyn helpu'r staff i ddatblygu.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu arnynt, nodir y rhain isod:

Lle mae angen cynllun gwella, dylai:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.